

Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

Grwpiau Ieuenctid Natsïaidd



Poster: "Mae Ieuenctid yn Gwasanaethu'r Arweinydd: Pawb yn 10 oed i'r [Hitler Youth]", 1939.

Delwedd: Unites States Holocaust Memorial Museum.
Dogfennau gwreiddiol yn cael eu cadw gan Library of Congress,
Prints and Photographs Division, Washington, D.C.



Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

Grwpiau Ieuentid Natsiaidd

Ieuentid Hitler a Chynghrair Merched yr Almaen oedd y prif arfau a ddefnyddiwyd gan y Natsiaid i lunio credoau, barn a gweithredoedd ieuentid yr Almaen. Defnyddiodd arweinwyr ieuentid weithgareddau grŵp oedd wedi'u rheoli'n dynn a chynnal digwyddiadau propaganda fel raliau torfol yn llawn defodau a golygfeydd i greu'r rhith o un gymuned genedlaethol yn ymestyn ar draws y rhaniadau dosbarth a chrefyddol a nodweddi'r Almaen cyn 1933.

Wedi'i sefydlu ym 1926, pwrpas gwreiddiol Ieuentid Hitler oedd hyfforddi bechgyn i fynd i mewn i'r SA (Storm Troopers), sefydliad parafilwrol y Blaid Natsiaidd. Ar ôl 1933, fodd bynnag, ceisiodd arweinwyr ieuentid integreiddio bechgyn i'r gymuned genedlaethol Natsiaidd a'u paratoi ar gyfer gwasanaeth fel milwyr yn y lluoedd arfog neu, yn ddiweddarach, yn yr SS.

Ym 1936, daeth aelodaeth mewn grwpiau ieuentid Natsiaidd yn orfodol i bob bachgen a merch rhwng deg a dwy ar bymtheg oed. Roedd cyfarfodydd ar ôl ysgol a theithiau gwerysyla ar y penwythnos a noddwyd gan Ieuentid Hitler a Chynghrair Merched yr Almaen yn hyfforddi plant i ddod yn ffyddlon i'r Blaid Natsiaidd ac arweinwyr y wladwriaeth Sosialaidd Genedlaethol yn y dyfodol.

Cyfunodd Ieuentid Hitler chwaraeon a gweithgareddau awyr agored ag ideoleg. Yn yr un modd, pwysleisiodd Cynghrair Merched yr Almaen athletau ar y cyd, fel gymnasteg rythmig, yr oedd awdurdodau iechyd yr Almaen yn ei hystyried yn llai egniol i'r corff benywaidd ac yn fwy addas i'w paratoi ar gyfer bod yn fam. Roedd eu harddangosiadau cyhoeddus o'r gwerthoedd hyn yn annog dynion a merched ifanc i gefnu ar eu hunigoliaeth o blaid nodau'r grŵp Ariaidd.

Roedd y grwpiau ieuentid Natsiaidd yn ymwneud â gorfodi cydymffurfiaeth. Roedd ieuentid ledled yr Almaen yn gwisgo'r un gwisgoedd, yn canu'r un caneuon Natsiaidd, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau tebyg.

Yn arwyddocaol, ni chaniatawyd i Iddewon ymuno â'r sefydliadau hyn.

Ffynonellau

United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopaedia: Indoctrinating Youth* <<https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/indoctrinating-youth>> [cyrchwyd 10 Ebrill 2022]

United States Holocaust Memorial Museum, *Poster: "Youth Serves the Leader: All 10-Year-Olds into the [Hitler Youth]"* <<https://www.ushmm.org/propaganda/archive/poster-hitler-youth/>> [cyrchwyd 12 Ebrill 2022]

